Polisi
Trwydded Cerbydau

Dod o hyd i ni ar

ailgylchu dros Sir y Fflint
recycle for Flintshire

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Trosolwg

Polisi	Polisi Trwydded Cerbydau
Portffolio	Gwasanaethau Stryd a Chludiant
Maes Gwasanaeth	Strategaeth Wastraff
Dogfennau Perthnasol	Polisi Casglu Gwastraff y Cartref a Gwaith Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1	Ebrill 2022	Gweithredwyd polisi annibynnol yn dilyn adolygiad o Bolisi Gweithrediadau'r Ganolfan Casglu Gwastraff y Cartref a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref
2	Ebrill 2023	A1 - Yn cynnwys diffiniad o wastraff masnach/busnes A1.1 - Diweddariad i'r meini prawf trwyddedu ar gyfer cerbydau ag arwyddion A2.1 - Yn diffinio'r mynediad i gerbydau symudedd A2.2 - Yn diffinio'r mynediad ar gyfer trelars ag ochrau cewyll A3.1 a 3.2 – Yn diffinio'r dogfennau sydd eu hangen gyda cheisiadau A3.3 - Yn diffinio'r meini prawf mynediad ar gyfer cerbydau ag arwyddion A4 - Yn diffinio'r camau i'w cymryd ar weinyddu trwydded a chasglu cyflyrydd pridd A7(c) - Yn diffinio'r broses wrth fenthyg cerbyd
3	Tachwedd 2024	A1 - Testun wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r weithdrefn ar wastraff masnachol A 1.1 - Yn ychwanegu eglurder ynglŷn ag ail-ymgeisio am drwydded A 2.2 - Yn ychwanegu cerbydau symudedd/anabledd A 3.2 - Yn ychwanegu proses ymgeisio ar gyfer cerbydau symudedd/anabledd

Ymgynghoriad

Fersiwn	Pwy	Dyddiad
1	Gweithredwyr, rheolwyr, Tîm y Prif Swyddogion, Aelodau Etholedig, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi, y Cabinet	2021/22
2	Gweithredwyr, rheolwyr, Tîm y Prif Swyddogion, Aelodau Etholedig, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi	Medi - Tachwedd 2022
3	Rheolwyr, Tîm y Prif Swyddogion, Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chludiant, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi	Medi - Tachwedd 2024

Cymeradwyaeth

Fersiwn	Pwy / Lle	Dyddiad
1	Y Cabinet	18 Ionawr 2022
2	Y Cabinet	20 Rhagfyr 2022
3	Y Cabinet (yn amodol ar gymeradwyaeth)	17 Rhagfyr 2024

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.
This document is also available in English. See English page on our website.

Cynnwys

1.	Cynllun Trwydded Cerbydau Sir y Fflint	4
	1.1 Meini Prawf y Cynllun Trwydded Cerbydau	4
2.	Cymhwysedd Cerbyd	5
	2.1 Cerbydau nad ydynt angen trwydded	5
	2.2 Cerbydau sydd angen trwydded	5
	2.3 Cerbydau nad ydynt yn gymwys i gael trwydded	6
3.	Y Broses Ymgeisio	6
	3.1 Dogfennaeth cerbydau sydd ei hangen wrth wneud cais	7
	3.2 Dogfennaeth trelar sydd ei hangen wrth wneud cais	7
	3.3 Cerbydau ag arwydd ysgrifenedig	8
	3.4 Cerbydau symudedd/anabledd	8
4.	Mynediad y Deiliad Trwydded	9
	4.1 Newid/ Gwerthu Cerbyd	9
	4.2 Trwyddedau cerbydau a gollir neu a ddifrodir	9
	4.3 Casglu cyflyrydd pridd	10
5	Gadael y cynllun trwydded cerbydau	10
6	Trwydded untro	10
7	Trwydded dros dro	10
8	Camddefnyddio'r cynllun trwydded cerbyd	11

1. Cynllun Trwydded Cerbydau Sir y Fflint

Darperir y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (HRCs) i ddeiliaid tai gael gwared ar wastraff cartref yn ddiogel ac yn gyfleus, yn ogystal ag annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn ailgylchu.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn rheoli ac yn gweithredu pum Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref i breswylwyr Sir y Fflint i ailgylchu neu ailddefnyddio eitemau'r cartref na ellir eu casglu gan gerbydau casglu wrth ymyl y ffordd. Mae'r canolfannau yn y lleoliadau canlynol ar draws y sir:

- Maes Glas
- Sandycroft
- Yr Wyddgrug
- Bwcle
- Rockliffe (Oakenholt)

Mae'r canolfannau ailgylchu ar gyfer cael gwared â gwastraff cartref ar raddfa fach yn unig o eiddo domestig. Dim ond drwy gynllun trwydded yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Maes Glas y derbynnir gwastraff masnachol a/neu fusnes yn unol ag amodau'r Drwydded Amgylcheddol.

Ni chaniateir i Ganolfannau Ailgylchu'r Cyngor dderbyn gwastraff masnach, masnachol na busnes, y gellir ei ddiffinio fel unrhyw wastraff a ddaw o weithgaredd masnachol. Os ydych chi'n defnyddio rhan o'ch cartref i redeg eich busnes, yna mae unrhyw wastraff o'r rhan honno yn wastraff busnes. Mae gwastraff busnes hefyd yn cynnwys unrhyw wastraff a ddaw o adeiladu, dymchwel, diwydiant ac amaethyddiaeth. Gellir gwaredu'r gwastraff hwn am ffi drwy gynllun trwydded, yn amodol ar wiriadau cydymffurfio, yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Maes Glas.

I reoli mynediad a nifer y gwastraff sy'n dod i'r canolfannau, mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun trwydded cerbydau.

Mae'r polisi hwn yn gosod cyfyngiadau'r cynllun trwydded cerbydau.

1.1 Meini Prawf y Cynllun Trwydded Cerbydau

- Rhoddir trwydded ar sail dreigl 12 mis
- Caniateir deuddeg ymweliad bob deuddeg mis.
- Gall deiliad tŷ ddewis pryd i ddefnyddio'r trwyddedau e.e. naill ai i gyd mewn un mis neu rannu'r ymweliadau dros y flwyddyn.
- Rhaid ailgyflwyno cais llawn ar ôl i'r drwydded ddod i ben neu, os na fydd y 12 ymweliad wedi eu defnyddio erbyn y dyddiad terfyn, ar ôl defnyddio dyraniad y drwydded.
- Dim ond un drwydded a roddir fesul cyfeiriad preswyl.
- Cyflwynir trwyddedau ar gyfer y safle sydd agosaf i eiddo'r preswylydd neu, pan gyflwynir achos busnes dilys, ar gyfer safle o ddewis y preswylydd.
- Ni fydd trelars yn cael mynediad os ydynt yn cael eu tynnu gan gerbyd sydd angen trwydded (e.e. fan)
- Mae'n bosibl y bydd rhai cerbydau wedi'u hysgrifennu ag arwyddion yn gymwys i gael trwydded flynyddol yn ddibynnol ar rai amodau (gweler Adran 3.3).

- Nid yw cerbydau sydd wedi'u cofrestru i gyfeiriad busnes neu sy'n gysylltiedig â gwastraff busnes, masnach neu fasnachol yn gymwys i gael trwydded safonol.
- Nid yw cerbydau domestig yn gymwys os ydynt yn gysylltiedig â busnesau (fel yr uchod).
- Ni ddylai'r cerbyd/perchennog fod yn gludydd gwastraff cofrestredig gydag un ai Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr) pan yn gwaredu deunyddiau gwastraff ac ailgylchu y cartref.
- Mae trwyddedau ar gael i drigolion Sir y Fflint yn unig a dim ond un drwydded y gellir ei rhoi i bob cartref.
- Mae trwyddedau a roddir yn berthnasol i gerbyd mewn cyfeiriad penodol yn Sir y Fflint ac nid y gwastraff. Felly, hyd yn oed gyda thrwydded, gall staff safle ailgylchu ddal i wrthod unrhyw un yr amheuir ei fod yn dod â gwastraff o natur fasnachol neu wastraff sy'n ymwneud â busnes y cerbyd sydd ag ysgrifen arno. Os bydd hyn yn digwydd, yna bydd y drwydded yn cael ei thynnu oddi ar y preswylydd gan y bydd amodau a thelerau ei chyhoeddi wedi'u torri.
- Ni chaniateir i ddeiliaid tai ddefnyddio trwydded i ddod ag unrhyw wastraff sy'n ymwneud â'r gweithgaredd busnes y defnyddir y cerbyd ar ei gyfer fel arfer.

2. Cymhwysedd Cerbyd

Bydd y math o gerbyd yn pennu os oes angen trwydded.

2.1 Cerbydau nad ydynt angen trwydded

- Car bach
- Car arferol
- Car teulu mawr
- Cerbydau pob pwrpas chwaraeon (SUV)
- Cerbydau 4x4 (gelwir hefyd yn rhai gyriant pob olwyn)
- Beic Modur
- Cerbyd symudedd (rhaid i faint fod gyda chyfyngiadau polisi - drychiad to safonol neu isel o dan 7 troedfedd neu 2.14 metr a rhaid iddo gael addasiadau cymorth symudedd).

2.2 Cerbydau sydd angen trwydded

- Pic-yp (dwy neu bedair sedd) h.y. cerbyd bychan gyda rhan agored/caeedig yn y cefn ble gellir cludo nwyddau
- Faniau sy'n deillio o geir
- Fan fechan
- Fan ganolig (to safonol neu isel yn is na 7 troedfedd neu 2.14 metr)
- Trelars echel sengl hyd at 6.6 troedfedd / 2 fetr o hyd gyda/heb ochrau cewyll*
- Trelars echel ddwbl hyd at 6.6 troedfedd / 2 fetr o hyd gyda/heb ochrau cewyll*
- Bws mini (gyda gosodiadau mewnol yn gyflawn)

- Faniau camper a chartrefi modur (gyda gosodiadau mewnol yn gyflawn ac yn is na 7 troedfedd neu 2.14 metr)
- Cerbydau symudedd sy'n fwy na'r cyfyngiad maint sy'n cael ei nodi yn y polisi hwn, ond sydd ag addasiadau cymorth symudedd i gefnogi cwsmer ag anabledd i hwyluso eu bywydau o ddydd i ddydd.
- Cerbydau sy'n fwy na'r cyfyngiad maint sy'n cael ei nodi yn y polisi hwn, ond sy'n angenrheidiol i gwsmer ag anabledd i hwyluso eu bywydau o ddydd i ddydd.
- Cerbydau sydd wedi cael ei haddasu i ddarparu ar gyfer anabledd, na fyddai fel arfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer trwydded cerbyd safonol.

* *Gall y polisi ganiatáu i drelars ag ochrau cewyll gael mynediad i'r canolfannau ailgylchu cyn belled nad ydynt yn fwy na'r dimensiynau a nodir uchod (naill ai ar adeg eu prynu neu eu hôl-osod) ac ar yr amod y gellir symud y gwastraff heb dynnu'r ochrau yn gyfan gwbl neu heb ostwng y rampiau.*

2.3 Cerbydau nad ydynt yn gymwys i gael trwydded

- Faniau bocs mawr (math Luton)
- Cerbydau nwyddau mawr
- Cerbydau nwyddau trwm
- Cerbydau codi
- Cerbydau gwastad
- Faniau mawr (XLWB; LWB)
- Faniau gyda thoeau uchel (dros 7 troedfedd neu 2.14 metr)
- Trelars sy'n hirach na 6.6 troedfedd / 2 fetr o hyd
- Trelars bocs / trelars gyda phaneli ochr estynedig / trelars wedi eu haddasu
- Trelars â rampiau mynediad
- Bws mini (gyda gosodiadau mewnol wedi'u tynnu)
- Faniau camper a chartrefi modur (gyda gosodiadau mewnol wedi'u tynnu)
- Cerbydau amaethyddol
- Bocsys ceffylau/trelars ceffylau

3. Y Broses Ymgeisio

Bydd deiliaid tai sy'n talu treth safonol y cyngor yn Sir y Fflint â hawl i wneud cais am drwyddedau trwy lenwi ffurflen gais yn llawn. Dim ond i gartrefi yn Sir y Fflint y bydd trwyddedau yn cael eu dosbarthu. (Dim ond cartrefi yn Sir y Fflint sy'n talu Treth y Cyngor safonol sydd â'r hawl i ddefnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref y Cyngor).

Gwneir bob cais am drwydded cerbydau trwy'r e-ffurflen ar-lein sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Wrth wneud cais, rhaid cyflwyno'r holl ddogfennaeth angenrheidiol er mwyn cynnal asesiad o gymhwysedd.

Bydd yn ofynnol i ddeiliaid tai roi'r wybodaeth ganlynol:

- Enw'r ymgeisydd
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Rhif cofrestru'r cerbyd
- Gwneuthuriad, model a lliw'r cerbyd
- Uchder y cerbyd / dimensiynau'r trelar
- Math o Gerbyd: fel nodir yn Adran 2.2
- Cadarnhad o dderbyn Telerau ac Amodau'r cynllun trwyddedau

I ymgeiswyr sy'n methu â darparu'r ddogfennaeth angenrheidiol yn barhaus bydd eu cais yn cael ei wrthod, ac ni fyddant yn gymwys i ail-ymgeisio am gyfnod o chwe mis.

Bydd preswylydd yn cael un apêl os bydd trwydded cerbyd yn cael ei wrthod. I gyflwyno apêl rhaid i'r preswylydd lenwi'r e-ffurflen berthnasol ar wefan y Cyngor gan nodi'r sail dros apelio yn glir. Cyn ystyried apêl, rhaid i drigolion gyfeirio at y polisi hwn ac apelio os ydynt yn ystyried nad yw'r polisi wedi'i gymhwyso'n gywir yn unig.

Mae telerau ac amodau'n berthnasol a gellir eu gweld ar wefan y Cyngor ynghyd â'r hysbysiad preifatrwydd..

3.1 Dogfennaeth cerbydau sydd ei hangen wrth wneud cais

- E-ffurflen wedi'i llenwi
- Llyfr cofnod cerbyd llawn / copi o ddogfen gofrestru Cerbyd V5
- Trwydded yrru
- 1 x bil cyfleustodau neu fil treth y cyngor i brofi eich bod yn byw yn Sir y Fflint (cyfredol ac o fewn y 12 mis diwethaf)
- Rhaid i'r cyfeiriadau ar y ddogfennaeth gyfateb a rhaid iddynt fanylu ar yr eiddo lle mae'r cerbyd wedi'i gofrestru
- Lluniau o'r cerbyd sydd angen y drwydded::
- Golygfa tu mewn yn y cefn o ddrysau cefn yn dangos plât cofrestru (mae angen llun ychwanegol os na ellir gweld plât cofrestru os yw'r drysau ar agor
- Golygfa ochr (un ochr)

3.2 Dogfennaeth trelar sydd ei hangen wrth wneud cais:

- E-ffurflen wedi'i llenwi
- Llyfr cofnod cerbyd llawn / copi o ddogfen gofrestru Cerbyd V5
- Dimensiynau'r trelar (gweler y diagram isod)
- Trwydded yrru
- 1 x bil cyfleustodau neu fil treth y cyngor i brofi eich bod yn byw yn Sir y Fflint (cyfredol ac o fewn y 12 mis diwethaf)
- Rhaid i'r cyfeiriadau ar y ddogfennaeth gyfateb a rhaid iddynt fanylu ar yr eiddo lle mae'r cerbyd wedi'i gofrestru

- Lluniau o'r trelar y gofynnir am drwydded ar ei gyfer yn dangos y canlynol yn glir:
- Cefn y trelar yn dangos plât cofrestru
- Golygfa o'r ochr gan ddangos hyd ac uchder yn llawn.

Y dimensiynau trelar y mae angen eu cyflwyno gyda'r cais yw:



Ni dderbynnir dimensiynau amgen neu hunan-ddehongliad..

3.3 Gellir rhoi trwydded flynyddol i rai cerbydau ag arwydd ysgrifenedig (gan ganiatáu uchafswm o 12 ymweliad), ar yr amod:

- bod y cerbyd wedi'i gofrestru i gyfeiriad preswyl yn Sir y Fflint ar gyfer treth y cyngor
- nid yw'r gwastraff a waredir yn gysylltiedig ag unrhyw wastraff masnach
- bod y gwastraff sy'n cael ei ddanfon i'r ganolfan ailgylchu heb gael ei gynhyrchu neu'n annhebygol o fod wedi cael ei gynhyrchu gan weithgaredd y busnes hwnnw neu fusnes cysylltiedig
- mai'r unig wastraff a gyflwynir yn y ganolfan ailgylchu yw gwastraff cartref domestig

Byddai'r drwydded flynyddol newydd ar gael i drigolion Sir y Fflint yn unig a dim ond un drwydded a roddir i bob cartref. Mae trwyddedau a roddir yn berthnasol i gerbyd mewn cyfeiriad penodol yn Sir y Fflint ac nid y gwastraff. Felly, hyd yn oed gyda thrwydded, gall staff safle ailgylchu ddal i wrthod unrhyw un yr amheuir ei fod yn dod â gwastraff o natur fasnachol neu wastraff sy'n ymwneud â busnes y cerbyd sydd ag ysgrifen arno. Os bydd hyn yn digwydd, yna bydd y drwydded yn cael ei thynnu oddi ar y preswylydd gan y bydd amodau a thelerau ei chyhoeddi wedi'u torri. Ni chaniateir i ddeiliaid tai ddefnyddio trwydded i ddod ag unrhyw wastraff sy'n ymwneud â'r gweithgaredd busnes y defnyddir y cerbyd ar ei gyfer fel arfer. .

3.4 Dogfennaeth cerbydau symudedd/anabledd sydd ei hangen wrth wneud cais:

Pan mae gan breswylydd anabledd ac yn defnyddio cerbyd nad yw'n cael ei ganiatáu o dan y polisi hwn, yna gellir gwneud addasiadau er mwyn caniatáu i'r cerbyd hwnnw gael trwydded.

Rhaid gwneud cais trwydded llawn er mwyn gallu cynnal asesiad o'r cerbyd.

Mae asesiad yn amodol ar gyflwyno cais trwydded safonol ac un o'r canlynol:

- Darparu copi o fathodyn glas dilys os ydych wedi derbyn un.
- Llythyr gan weithiwr proffesiynol meddygol, iechyd neu ofal cymdeithasol â chymwysterau priodol i gefnogi'r cais a chadarnhau'r anabledd e.e. Meddyg Teulu, Nyrs Iechyd Galwedigaethol, Therapydd Galwedigaethol, Ymgynghorydd Arbenigol

Ym mhob achos, bydd angen i'r ymgeisydd gadarnhau'r canlynol: -

- Gwneud datganiad nad oes unrhyw gerbyd arall yn yr eiddo y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwaredu gwastraff yn y safleoedd.
- Darparu datganiad bod yr anabledd yn hirdymor (dros 12 mis, er enghraifft)
- Rhoi eglurhad ynglŷn â pham bod angen defnyddio'r cerbyd o ganlyniad i'r anabledd (efallai y gofynnir am ddogfennaeth i gadarnhau hyn).

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu fesul achos. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â rhoi trwydded neu i dynnu trwydded yn ei hôl os bernir y gallai'r cerbyd achosi problem iechyd a diogelwch wrth ddefnyddio'r safle.

4. Mynediad y Deiliad Trwydded

I gael gwell rheolaeth ar fynediad i'r canolfannau ac i atal camddefnyddio'r cynllun trwydded, cyflwynir Trwyddedau i safle dynodedig. Cyflwynir y trwyddedau ar gyfer y safle sydd agosaf i eiddo'r preswylydd neu, pan gyflwynir achos busnes dilys, ar gyfer safle o ddewis y preswylydd. Bydd hyn yn cynorthwyo i reoli'r cerbydau mwy, cymhleth ym mhob safle gan olygu nad oes gormod o gerbydau a ganiateir ar un safle.

- Dim ond unwaith y flwyddyn y rhoddir trwyddedau i gyfeiriadau unigol.
- Ni ellir rhoi trwyddedau i gerbydau yn erbyn cyfeiriadau lluosog.
- Dim ond ar gyfer y cerbyd a ddisgrifir ar y drwydded y mae trwydded yn ddilys.

4.1 Newid/ Gwerthu Cerbyd

Pan fydd preswylydd yn gwerthu cerbyd sydd wedi cael trwydded cerbyd, rhaid iddo ddychwelyd y drwydded i'r cyfeiriad canlynol gyda llythyr eglurhaol yn egluro'r sefyllfa. Nid yw'r drwydded yn drosglwyddadwy gyda'r cerbyd pan gaiff ei werthu.

Cyngor Sir y Fflint,

Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG

Os yw'r preswylydd yn prynu cerbyd arall sydd angen trwydded, yna rhaid gwneud cais newydd i sicrhau bod y cerbyd yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

4.2 Trwyddedau cerbydau a gollir neu a ddifrodir

Os yw preswylydd yn colli neu'n difrodi trwydded, rhaid iddynt gysylltu â'r cyngor ar unwaith i roi gwybod am y sefyllfa. Bydd y drwydded yn cael ei chanslo ar unwaith, a bydd staff y safle yn cael eu hysbysu. Gellir rhoi trwydded newydd; fodd bynnag, bydd nifer yr ymweliadau a wnaed eisoes yn cael eu tynnu o'r drwydded.

Canolfan Gyswllt Gwasanaethau Stryd 01352 701234

E-bost: streetsceneadmin@flintshire.gov.uk

4.3 Casglu cyflyrydd pridd

Mae cyflyrydd pridd ar gael yn rhad ac am ddim o'r canolfannau ailgylchu. Os yw preswylydd am gasglu'r cynnyrch hwn mewn cerbyd sy'n destun y polisi hwn, yna mae'n rhaid iddo gael trwydded ddilys i gael mynediad i'r safle. Mae hyn er mwyn sicrhau mai dim ond cerbydau sy'n mynd i mewn i'r Canolfannau Ailgylchu sydd o'r uchder neu'r hyd a gymeradwywyd.

Os mai dim ond i gasglu cyflyrydd pridd y mae'r preswylydd yn mynd i'r safle, ac i beidio â chael gwared ag unrhyw ailgylchu neu wastraff, yna bydd yn rhaid iddo ddangos ei drwydded ddilys, fodd bynnag ni fydd ymweliad yn cael ei dynnu o'r deuddeg a neilltuwyd.

5. Gadael y cynllun trwydded cerbydau

Gall preswylwyr adael y cynllun trwydded cerbydau unrhyw bryd trwy ddychwelyd eu trwydded i'r cyfeiriad canlynol gyda llythyr yn egluro eu dymuniad i ganslo:

Cyngor Sir y Fflint,
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG

Pe na fyddai trwyddedau heb eu defnyddio yn cael eu rhoi yn ôl, bydd y Cyngor yn trin y sefyllfa hon yr un fath â phe bai deiliad tŷ wedi colli'r trwyddedau.

6. Trwydded Untro

Ar gyfer y cerbydau hynny nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwyso megis cerbyd a gofrestrwyd i fusnes y mae ei berchennog angen defnyddio eu cerbyd/trelar i gael gwared ar eitemau mawr a swmpus, yna gellir cyflwyno trwydded untro os nodir yn glir nad yw'r gwastraff yn gysylltiedig â'r busnes neu weithgareddau'r busnes y mae'r cerbyd wedi ei gofrestru iddo neu ei ddefnyddio e.e. cerbyd a gofrestrwyd i blymwr sydd eisiau cael gwared ar wastraff gardd y cartref.

I gael trwydded untro rhaid gwneud cais cyn yr ymweliad trwy e-ffurflen benodol ar wefan y Cyngor er mwyn gwneud asesiad a chyflwyno trwydded.

Rhaid i'r math o gerbyd ar gyfer y cais am drwydded untro gydymffurfio ag un o'r mathau o gerbydau a nodir yn Adran 2.2.

Dim ond dwywaith y gellir rhoi trwydded untro mewn cyfnod o 12 mis.

7. Trwydded Dros Dro

a) Defnyddio cerbyd llogi i gael gwared ar wastraff cartref
Gellir rhoi trwydded dros dro i breswylydd Sir y Fflint sy'n llogi cerbyd i symud eu gwastraff cartref eu hunain.

Bydd angen i'r deiliad tŷ ddarparu'r cytundeb llogi cerbyd i ddangos fod y cerbyd wedi ei logi.

b) Benthyca neu ddefnyddio fan gweithle neu gwmni a cherbyd o fath masnachol
Gall deiliaid tai o Sir y Fflint ddefnyddio fan eu cyflogwyr neu gerbydau o fath masnachol (cyn belled fod y cerbyd yn cydymffurfio â chyfyngiadau math a maint a nodir yn Adran 2.2) i gael gwared ar wastraff cartrefi eu hunain mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref.

Fodd bynnag, bydd y deiliad tŷ angen llythyr gan y perchennog (neu ei gynrychiolydd) ar bapur y cwmni sy'n rhoi caniatâd i'r ymgeisydd ddefnyddio'r cerbyd i symud eu gwastraff domestig eu hunain, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn lle'r Ddogfen Cofrestru Cerbyd V5 ar gyfer dibenion dilysu (bydd angen prawf preswylio yn Sir y Fflint gan ddeiliad y tŷ).

c) Benthyg neu ddefnyddio cerbyd teulu/ffrind
Gall deiliaid tai o Sir y Fflint ddefnyddio cerbyd aelod o'r teulu neu ffrind (ar yr amod bod y cerbyd yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau math a maint a nodir yn Adran 2.2) i ollwng eu gwastraff cartref eu hunain mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Bydd dal angen prawf o breswyliad yn Sir y Fflint gan ddeiliad y tŷ, ond nid yw'n ofynnol bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn Sir y Fflint.

Rhaid i'r math o gerbyd ar gyfer y cais am drwydded untro gydymffurfio ag un o'r mathau o gerbydau a nodir yn Adran 2.2. Os nad yw'r cerbyd yn cyd-fynd â'r gofynion maint neu fath yna ni chaniateir iddo gael mynediad i safle canolfan gwastraff cartref.

Rhoddir trwydded dros dro unwaith yn unig mewn cyfnod o 12 mis a fydd yn rhoi caniatâd i wneud tri ymweliad dros gyfnod o saith diwrnod.

I gael trwydded dros dro rhaid gwneud cais ymlaen llaw drwy gysylltu â **Chanolfan Gyswllt Gwasanaethau Stryd ar 01352 701234** / streetsceneadmin@flintshire.gov.uk fel y gellir gwneud asesiad, a rhoi trwydded.

8. Camddefnyddio'r cynllun trwydded cerbyd

Mae gan Gyngor Sir y Fflint yr hawl i ddod ag unrhyw gonsesiynau o dan y cynllun trwyddedau i ben os yw deiliad y drwydded yn mynd yn groes i unrhyw beth a nodir yn y polisi hwn a'r telerau ac amodau defnyddio.

Ni fydd cam-drin, ymddygiad ymosodol neu fygythiadau i aelodau staff neu breswylwyr eraill yn cael eu goddef a gallai arwain at naill ai trwydded yn cael ei dirymu ar unwaith neu at wahardd deiliad rhag defnyddio Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref Cyngor Sir y Fflint.

Caniateir ac awdurdodir aelodau staff Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref atafaelu trwydded pe bai amgylchiadau penodol yn golygu bod angen hyn, er enghraifft:

- Cam-drin, ymddygiad ymosodol neu fygwth staff y safle neu breswylwyr eraill
- Peidio â chydymffurfio â rheolau safleoedd gan gynnwys torri rheolau diogelwch y safle, cyfyngiadau cyflymder, cyfarwyddebau staff
- Trwyddedau sydd wedi'u hagru, addasu neu sy'n cynnwys manylion aneglur ac felly'n annilys.
- Methiant i ddatgan gwastraff peryglus mewn llwyth.
- Cael gwared â gwastraff nad yw'n cydymffurfio neu fathau o wastraff na ganiateir ar y safle.

Mae trwyddedau a roddwyd yn berthnasol i gerbyd mewn cyfeiriad penodol yn Sir y Fflint ac nid y gwastraff, felly, hyd yn oed gyda thrwydded, mae gan staff y safle mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref hawl i allu gwrthod unrhyw un dan amheuaeth o ddod â gwastraff o natur fasnachol.

Bydd y Cyngor yn monitro ymweliadau i atal a rheoli ceisiadau dyblyg ar gyfer adnewyddu trwyddedau coll neu sydd wedi'u dwyn, hynny yw deiliaid tai sy'n parhau i ddefnyddio'r trwyddedau yr honnwyd iddynt fynd ar goll, ar ôl cael rhai newydd.

Bydd y Cyngor yn monitro ymweliadau i nodi unrhyw drwyddedau sydd wedi cael eu copïo neu sy'n gopïau ffug.

Bydd gan y Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw un o safle canolfan ailgylchu gwastraff cartref os amheuir eu bod wedi torri unrhyw un o'r amodau a nodir yn y polisi hwn.

Bydd deiliaid tai sy'n dod i safle Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref heb drwydded ar gyfer eu fan neu gerbyd bach o fath masnachol yn cael eu troi ymaith.

Hysbysir Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw un sy'n dod â gwastraff masnachol i safle, os oes ganddynt drwydded ai peidio.

Mae'r polisi hwn yn disodli'r Polisi Casglu Gwastraff Cartref a Gwaith Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref 2017, Adrannau 12.7 i 12.13